Archwilio Cymru
Audit Wales

# Diogelu ar gyfer y dyfodol?

## Cynaliadwyedd ariannol yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Mai 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan Adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Gall hefyd lywio adrodd o dan Adran 15(3) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Pan fyddwn wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes angen help arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- E-bostiwch ni ar post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith rydych chi'n ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

# Cynnwys

Ciplun archwiliad 4

Ffeithiau a ffigurau allweddol 6

Ein canfyddiadau 7

Argymhellion 9

Atodiadau 10

1 Ynglŷn â'n gwaith 11

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn yr edrychwyd arno

1 Fe wnaethom edrych ar sut mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod) yn gweithredu i'w helpu i gyflawni cynaliadwyedd ariannol. Mae hyn yn cynnwys ei gynlluniau ariannol, y dystiolaeth y mae'n ei defnyddio i ddatblygu ei gynlluniau, a sut mae'n adrodd i aelodau ar ei gyllid.

2 Nid ydym yn edrych ar reolaeth ariannol ehangach yr Awdurdod na'r penderfyniadau ariannol unigol y mae wedi'u gwneud neu y mae'n bwriadu eu gwneud.

3 Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar ddarparu sicrwydd a chefnogi gwelliant yn y ffordd y mae'r Awdurdod yn gweithio i wella ei gynaliadwyedd yn y tymor canolig i'r tymor hir. Rydym yn cydnabod bod rhai pethau sy'n effeithio ar hyn y tu allan i reolaeth yr Awdurdod. Mae hyn yn cynnwys lefel y cyllid y mae'n ei dderbyn a digwyddiadau byd-eang fel pandemig COVID-19. Mae'r cyd-destun anodd yn golygu bod cynllunio ar gyfer gwahanol senarios a bod yn glir ar yr opsiynau sydd ar gael yn bwysig. Mae hefyd yn dangos nad yw bob amser yn bosibl cynllunio'n fanwl yn y tymor canolig i'r tymor hir.

## Pam mae hyn yn bwysig

4 Mae'r sector cyhoeddus yn wynebu heriau ariannol sylweddol ac mae wedi gwneud ers sawl blwyddyn. Mae hyn yn rhoi pwysau ar yr Awdurdod i gydbwyso'r hyn y mae ei eisiau neu sydd angen ei wario yn erbyn cyllid sy'n parhau i fod yn her. Mae cael y cydbwysedd hwn yn gywir yn her sylweddol ac mae'n golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod gydbwyso gwahanol ffactorau i sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd gorau posibl o arian cyhoeddus. Mae hyn yn golygu bod cynllunio i gyflawni cynaliadwyedd yn allweddol ac yn cefnogi'r Awdurdod i ddangos gwerth am arian.

## Yr hyn a ganfuwyd

5 Canfuom fod trefniadau'r Awdurdod wedi ei helpu i gyflawni sefyllfa ariannol gymharol gref. Fodd bynnag, mae ar gam cynnar wrth nodi ei gynlluniau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol tymor hwy ac mae wedi dibynnu ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i fantoli ei gyllideb yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## Yr hyn a argymhellwn

6 Gwnaethom ddau argymhelliad i'r Awdurdod. Mae'r cyntaf yn ymwneud â datblygu strategaeth ariannol tymor canolig cynaliadwy i gau'r bwlch cyllido a ragwelir. Roedd yr ail yn ymwneud ag adrodd ar gyflawni ei strategaeth ariannol a'r effaith ar ei amcanion llesiant.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

£540,000 - y swm ychwanegol y mae'r Awdurdod yn anelu at ei gynhyrchu bob blwyddyn o ffioedd parcio ceir i helpu i gau ei fwlch cyllidebol o £635,000.

86% - y ganran y mae'r Awdurdod yn amcangyfrif y bydd ei gronfeydd wrth gefn cyffredinol yn gostwng rhwng 2025-26 a 2028-29. Mae'r Awdurdod yn amcangyfrif y byddant yn gostwng o £3.1 miliwn i £441,000 dros y cyfnod hwn os na fydd yn cymryd unrhyw gamau i fynd i'r afael a hyn.

# Ein canfyddiadau

## Er gwaethaf ei sefyllfa ariannol gymharol gref, nid yw'r Awdurdod wedi nodi eto sut y bydd yn cau ei fwlch cyllido rhagamcanedig dros y tymor canolig

7 Mae strategaeth gychwynnol yr Awdurdod i gau y bwlch yn ei gyllideb yn canolbwyntio ar gynyddu incwm, ac yna arbedion costau nad ydynt yn rhai staff ac yna arbedion costau staff. Mae ei ddull strategol newydd i gynhyrchu incwm ychwanegol yn cael ei ddatblygu, sydd â'r potensial i leihau ei ddiffyg a nodwyd yn sylweddol. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod wedi nodi'r holl arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud i gau ei fwlch cyllido dros y tymor canolig.

8 Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn defnyddio ei gronfeydd wrth gefn i reoli pwysau tymor byr, ond mae'n cydnabod nad yw hyn yn gynaliadwy dros y tymor canolig. Ar hyn o bryd mae'n rhagweld y bydd cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn gostwng o £3.1 miliwn ym mis Mawrth 2026 i £441,000 erbyn 2028-29. Mae’r Awdurdod yn cydnabod mai dyma’r sefyllfa waethaf pe na bai unrhyw gamau’n cael eu cymryd, mae’r awdurdod eisoes wedi dechrau cymryd camau i fynd i’r afael â hyn.

## Mae'r Awdurdod yn ymwybodol bod ei sefyllfa ariannol yn anghynaladwy dros y tymor canolig oni bai ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn

9 Mae gan yr Awdurdod ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol, heriau ariannu a risgiau ariannol. Mae hyn wedi'i nodi mewn adroddiadau’n diweddaru aelodau ar y gyllideb. Mae gan uwch swyddogion hefyd ddealltwriaeth dda o bwysau cyllidebol allweddol yr Awdurdod a sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â hyn dros y tymor canolig.

10 Mae'r Awdurdod wedi amcangyfrif bwlch cyllido o £1.02 miliwn erbyn 2028-29. Mae gan yr Awdurdod sefyllfa wrth gefn gymharol gref. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae'n cydnabod y byddai parhau i ddefnyddio ei gronfeydd wrth gefn i ategu ei gyllideb refeniw yn anghynaladwy oni bai ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn.

11 Rhagdybiaethau cychwynnol yr Awdurdod ynghylch incwm ychwanegol o ffioedd meysydd parcio yw y gellid codi cynnydd o £540,000 y flwyddyn yn erbyn diffyg o £635,000 ar gyfer 2025-26.. Fodd bynnag, mae angen i'r Awdurdod wneud gwaith ymhellach i nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg sydd weddill.

## Mae'r Awdurdod yn adrodd yn rheolaidd ar ei gyllid i aelodau er mwyn galluogi goruchwylio a chraffu ond nid yw'n esbonio'r goblygiadau ar gyfer cyflawni ei amcanion.

12 Mae'r Awdurdod yn adrodd yn rheolaidd ar ei gyllid i aelodau. Mae'r adroddiad yn gwneud aelodau'n ymwybodol o'r sefyllfa ariannol bresennol a'r defnydd presennol gan yr Awdurdod o gronfeydd wrth gefn. Gall hyn helpu aelodau i nodi risgiau ariannol a chymryd camau i wella sefyllfa ariannol yr Awdurdod.

13 Fodd bynnag, nid yw adroddiad yr Awdurdod yn esbonio'n glir goblygiadau parhau i weithredu o fewn diffyg cyllidebol ar gyflawni ei amcanion llesiant. Gall nodi'r goblygiadau helpu i gryfhau goruchwyliaeth a chraffu aelodau, ac felly cynaliadwyedd ariannol.

# Argymhellion

**A1** Dylai'r Awdurdod ategu ei weithgarwch diweddar i ddatblygu strategaeth ariannol gynaliadwy yn y tymor canolig i gau ei ddiffyg cyllid a ragwelir dros y tymor canolig (**paragraffau 7 ac 8**).

**A2** Dylai'r Awdurdod adolygu ei adroddiadau ariannol i sicrhau ei fod yn adrodd yn rheolaidd ar gyflawni ei strategaeth ariannol ac effaith hyn ar ei sefyllfa ariannol, a chyflawni amcanion llesiant (**paragraff 13**).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom edrych ar sut mae'r Awdurdod yn gweithredu i'w helpu i gyflawni cynaliadwyedd ariannol. Mae hyn yn cynnwys ei gynlluniau ariannol, y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu ei gynlluniau, ac yna sut mae'n adrodd i aelodau ar ei gyllid. Fe wnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith rhwng Hydref ac Ionawr 2026.

Nid wnaethom ystyried rheolaeth ariannol ehangach yr Awdurdod na'r penderfyniadau ariannol unigol y mae wedi'u gwneud neu y mae'n bwriadu eu gwneud.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Dawsom i'n casgliadau ynglŷn â chynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod trwy ateb tri chwestiwn allweddol. Yn gyntaf, gofynnom a oes gan yr Awdurdod gynllun clir a hirdymor ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol. Yn ail, ystyriwyd a yw'r Awdurdod yn gwybod y sefyllfa ariannol y mae ynddi ac wedi defnyddio ei wybodaeth i lunio ei strategaeth. Yn drydydd, gofynnom a yw adroddiadau ariannol yr Awdurdod i aelodau yn eu helpu i oruchwylio ei gynaliadwyedd ariannol.

### Meini Prawf

Rydym yn defnyddio'r meini prawf archwilio i'n helpu i ateb ein cwestiynau ar drefniadau'r Awdurdod. Maent yn ein helpu i ddeall sut olwg ddylai neu allai fod ar drefniadau yn eu cyd-destun. Mae gwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) a'n gwybodaeth gronnol wedi llywio eu datblygiad.

# Dulliau

Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygu dogfennau a chynnal cyfweliadau ag uwch swyddogion, Cadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y defnydd o adnoddau gan y sefydliadau hyn ac yn awgrymu ffyrdd y gallent wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda'r rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English